ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Creu Cerddoriaeth a Seiniau

TGCh - Y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r uned hon:

Mae'r plant yn dechrau defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau syml i gipio seiniau. Maent yn dechrau ymchwilio i seiniau ar gyfrifiadur ac yn cwblhau tasgau syml drwy symud gwrthrychau ar y sgrîn. Bydd y plant yn datblygu sgiliau siarad a gwrando drwy gyfleoedd i archwilio a siarad am eu profiadau a gwrando ar recordiadau ohonynt ac eraill. Maent yn defnyddio'n annibynnol ac yn ymateb i ddyfeisiau syml megis 'Tuniau Siarad', 'Labeli Siarad', 'Albymau Lluniau Siarad' a chyda help oedolion, yn dechrau defnyddio meicroffon i recordio eu lleferydd neu'r seiniau maent yn eu gwneud. Maent yn ymateb i symbyliadau amlgyfrwng i gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau ac estyn eu geirfa yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy ddefnyddio gweithgareddau TGCh addas mewn ffordd strwythurol. Maent yn creu cyfansoddiadau cerddorol syml drwy drefnu lluniau ar y sgrîn ac yn cael cyfle i chwarae ag offer megis teganau sy'n newid seiniau, matiau dawns cerddorol a/neu beiriannau carioci etc.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: symud a threfnu lluniau ar sgrîn i greu cyfansoddiad cerddorol syml a chyda help oedolyn, yn gallu defnyddio dyfeisiau syml i recordio a chwarae seiniau. Maent yn dechrau defnyddio TGCh yn briodol yn eu chwarae i gipio ac ymateb i seiniau a cherddoriaeth ac yn deall y gellir defnyddio cyfrifiaduron i recordio lleisiau a seiniau.

Bydd rhai disgyblion dim ond yn gallu: clicio ar wrthrychau neu eu symud ar sgrîn i wneud seiniau. Maent yn ddihyder ac mae angen cefnogaeth oedolyn arnynt i recordio seiniau a'u chwarae'n ôl, a dim ond yn gallu defnyddio dyfeisiau sain gydag anogaeth.

Bydd rhai plant hefyd yn gallu: defnyddio dilyniant o luniau i greu cyfansoddiad cerddorol syml ar sgrîn a chyda help oedolyn, gallant ddefnyddio dyfeisiau syml i recordio a chwarae seiniau. Maent yn dechrau defnyddio TGCh yn briodol yn eu chwarae i gipio ac ymateb i seiniau a cherddoriaeth ac yn deall y gellir defnyddio cyfrifiaduron i recordio lleisiau a seiniau. Gallant siarad yn hyderus am amrywiaeth o ddyfeisiau sain a'u defnyddio'n briodol yn eu chwarae.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLlAD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (DIG)	Datblygiad Creadigol (DCr)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)	Chwarae yn yr Awyr Agored(ChAA)
Datblygiad Mathemategol (DM)	Datblygiad Corfforol (DC)	Chwarae Rôl (ChR)

DPChLIAD ILlC DM DIG GDB DC DCr ChAA ChR

Y Blynyddoedd Cynnar **Creu gwybodaeth a syniadau a'u cyflwyno**

Asesiad Athrawon: *Dylai'r sgiliau y mae'r plant yn eu harddangos fod yn rhan o asesu parhaus. Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio unrhyw gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun Gwaith hwn.*

Recording Sheet Pupil Self Assessment

Creu Cerddoriaeth a Seiniau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn dechrau defnyddio rheolaeth elfennol ar y llygoden i archwilio sgrîn y cyfrifiadur i gynhyrchu seiniau.		Mae'r plant yn archwilio Bywyd Boobah (neu becyn gwefan neu feddalwedd arall) gan ddefnyddio cydsymudiad llaw a llygad i glicio ar neu lusgo gwrthrychau i gwblhau tasgau syml i greu seiniau. Maent yn ymateb i'r gweithgaredd ac yn siarad amdano. Sgriniau syml wedi eu creu gan Ymarferwyr at ddefnydd y disgyblion, fel bod seiniau'n cael eu cynhyrchu wrth glicio ar wrthrychau neu eu llusgo gan ddefnyddio'r llygoden.	Cyfrifiadur Gwefan Sain Geiriau sain	Cyfrifiadur Rhyngrwyd Gwefan Boobah http://www.boohbah.com/zone.html Meddalwedd BGRh	
Yn dechrau creu cyfansoddiadau cerddorol syml drwy ddefnyddio meddalwedd addas		Gan ddefnyddio pecyn meddalwedd cerddoriaeth, mae'r plant yn dethol lluniau i gyfansoddi alawon syml. Maent yn gwrando ar y brawddegau cerddorol ac yn siarad amdanynt, yn cyfrif sawl nodyn ac yn clapio, stampio a defnyddio'r corff fel offeryn taro a symudiad i ymateb i'w cyfansoddiad cerddorol. Gellir cyflwyno clustffonau ac esbonio'r rhesymau dros eu defnyddio i'r plant.	Sain Alaw Nodiadau Dethol Cofnodi Chwarae Gwrando Patrwm Dilyniant Seinyddion Clustffonau	Meddalwedd Cerddoriaeth BGRh Seinyddion Clustffonau Offerynnau cerdd	

		Bydd rhai plant yn dechrau defnyddio dilyniant o luniau i roi patrwm i'w halaw. Gellir gwneud hyn hefyd gyda grŵp neu ddosbarth o blant gan ddefnyddio BGRh gyda grwpiau o blant yn ymateb drwy defnyddio rhannau o'r corff fel offeryn taro. Gellir annog y plant hefyd i ymuno drwy chwarae offerynnau taro go iawn neu ganu i gyfeiliant y cyfansoddiad. Chwaraewch gêm gopïo - gweithio mewn parau neu grwpiau bach. Mae'r athro/plentyn yn dewis lluniau ac yn creu alaw syml. Mae'r partner/eraill yn y grŵp yn cymryd eu tro ac yn ceisio ei chopïo.			
Yn defnyddio TGCh i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau sain ac arbrofi â ffyrdd gwahanol o greu seiniau ar gyfrifiadur.		Dangos microffon i'r plant a gofyn iddynt beth mae'n ei wneud. Edrychwch ar y man lle mae'n cysylltu â'r cyfrifiadur a thrafodwch o ble bydd y sain yn dod pan fyddant yn gwrando ar seiniau sydd wedi eu recordio. Recordiwch y plant yn gwneud seiniau neu'n siarad i'r microffon a'i chwarae'n ôl. Recordiwch rhai ffeiliau sain ymlaen llaw o oedolion gwahanol yn yr ysgol yn siarad neu'n canu. Gallai hyn gynnwys geirfa Gymraeg syml megis rhifo, lliwiau neu gyfarchion. Chwaraewch y rhain i'r plant a gofynnwch iddynt ddyfalu pwy maent wedi eu clywed. Chwaraewch y gemau 'dyfalu'r sain' i helpu i ddatblygu sgiliau gwrando. Gall y rhain gynnwys seiniau yn yr amgylchedd, seiniau anifeiliaid neu offerynnau cerdd. Dangoswch sut i recordio sain ar y	Cyfrifiadur Recordydd Sain Microffon (rhaglen), Llais Sain Uchel Tawel Stopio Recordio Chwarae Seinyddion	Microffon Recordydd sain Effeithiau sain Seinydd	

		cyfrifiadur. Gofynnwch i'r plant gymryd tro i recordio eu hunain yn siarad/canu/chwarae offeryn cerdd i'r microffon a'i chwarae'n ôl. Gosodwch y microffon ar y cyfrifiadur gydag ychydig o luniau neu ffotograffau ar y sgrîn fel symbyliad i iaith a/neu offerynnau cerdd gerllaw. Gadewch i'r plant chwarae mewn parau, gan gymryd tro i recordio lleisiau ei gilydd neu chwarae offeryn. Gellir annog y plant fel rhan o dwyn i gof, i recordio'u hunain yn siarad am ffotograffau'r gweithgareddau a wnaed yn gynt. Anogwch y plant i chwilio'r ystafell ddosbarth am ffynonellau sain eraill a gadewch iddynt arbrofi ar recordio'r rhain! Gall hwn fod yn gyfle da i drafod uchder y sain ar y seinyddion a pha mor uchel y mae'n rhaid iddynt fod wrth iddynt chwarae'r seiniau'n ôl! Atgoffwch hwy am glustffonau! Mae rhai rhaglenni meddalwedd yn caniatáu i'r plant ychwanegu effeithiau sain, creu cerddoriaeth neu recordio eu lleisiau eu hunain i gyfoethogi'r lluniau maent wedi eu tynnu ar y sgrîn. Dylid hybu hyn hefyd er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am y ffyrdd gwahanol o gynhyrchu a defnyddio seiniau ar y cyfrifiadur.		Meddalwedd e.e. 2Create a Story, Tizzy's First Tools, Textease etc.	

Yn dechrau defnyddio dyfeisiau syml i recordio/chwarae seiniau.		Dylai amrywiaeth o ddyfeisiau recordio fod ar gael i'r plant e.e. chwaraewyr MP3, recordwyr tâp, Tuniau Siarad, Cardiau Post Siarad, Albwm Lluniau Siarad, Labeli Siarad, peiriannau ateb, ffonau symudol, peiriannau carioci etc i recordio/chwarae seiniau. Gall y rhain fod yn adnoddau wedi'u labeli fel rhan o'r ddarpariaeth barhaus ac wedi'i chyfoethogi i'w defnyddio dan do ac yn yr awyr agored. Dylai cerdyn ysgogi fod ger y dyfeisiau i staff cefnogi sy'n awgrymu geirfa berthnasol a chwestiynau i'w defnyddio gyda'r plant. Dylid dysgu'r plant i ofalu am y dyfeisiau. Rhaid iddynt gael eu hannog i ddychwelyd y ddyfais i'r ardal adnoddau benodol. Dangoswch iddynt sut i chwarae/ddefnyddio'r ddyfais. Gallwch gylchdroi'r gweithgareddau mewn grŵp e.e. plentyn yn dal y ddyfais recordio, plentyn yn canu/siarad/adrodd hwiangerdd neu'n chwarae offeryn a phlentyn yn clicio 'record' ar y recordydd sain. Gadewch i bob plentyn gael tro a gall oedolyn gadw recordiad pob plentyn fel ffeiliau unigol. Ar ddiwedd y sesiwn, gofynnwch i'r grŵp eistedd yn y blaen fel bod y dosbarth yn gallu eu gweld yn glir. Chwaraewch y lleisiau'n ôl a gofynnwch i'r dosbarth a allant enwi'r sawl sy'n siarad. Defnyddiwch newidwyr llais neu	Recordio Sain Lleisiau Recordydd Tâp Chwaraeydd MP3 Edrych Gwrando Ffôn Symudol Ystumio Uchder Cerddoriaeth	Chwaraeydd MP3, Tuniau Siarad, Cardiau Post Siarad, Albymau Lluniau Siarad Labeli Siarad Peiriant ateb Peiriant carioci etc Newidydd Sain Dyfeisiau amrywio/traw snewid seiniau	

		ddyfeisiau amrywio llais fel hwyl a rhoi cyfle i'r plant chwarae â'r offer sy'n ystumio'r sain.			